**Adroddiad i'r: Cyngor**
**Dyddiad y Cyfarfod: 11 HYDREF 2012**
**Swyddog / Aelod Arwain: Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arwain dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant**
**Awdur yr Adroddiad: y Cyfarwyddwr Moderneiddio a Lles**
**Teitl: Ymateb y Cyngor i Adolygiadau Gwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

## 1. Beth ydy pwrpas yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn argymell ymateb terfynol y Cyngor i'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid."

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad?

Mae "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid" ac Adolygiadau Gwasanaeth eraill a ystyriwyd gan Fwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Gorffennaf 2012, yn cynnwys cynigion am newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau iechyd ledled Gogledd Cymru. Mae proses ymgynghori ffurfiol ar y cynigion yn estyn o 20 Awst i 28 Hydref ac mae angen i'r Cyngor gytuno'n ffurfiol i'r ymateb a gynigir yn Atodiad I.

## 3. Beth ydy'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn cytuno i'r ymateb i'r ymgynghoriad, sydd ynghlwm yn Atodiad I, i'w gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Dros y 2 flynedd ddiwethaf, bu BIPBC yn cynnal adolygiadau o saith maes allweddol o'r gwasanaeth iechyd, h.y.
Gwasanaethau Cymunedol ac Ardaloedd
Gwasanaethau pediatrig
Gwasanaeth Mamolaeth, Gynaecoleg a Newydd eu Geni
Llawdriniaeth gyffredinol annewisol
Trawma ac Orthopaedeg
Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
Gwasanaethau Fasgwlaidd

4.2 Rhoddwyd gwybod am ganlyniad yr adolygiadau hyn "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid: adroddiad am gynigion i newid gwasanaethau" i BIPBC ar 19 Gorffennaf 2012.

4.3 Ar 11 Medi, cafodd y Cyngor wybodaeth gefndir a chrynodeb o'r cynigion, copi o'r ddogfen ymgynghori ac ymateb drafft i'r cynigion a baratowyd gan Weithgor o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Cafodd hefyd gyflwyniad gan

gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a bu’n gallu gofyn cwestiynau am faterion allweddol.

4.4 Ers cyfarfod y Cyngor ar 11 Medi, mae aelodau a swyddogion wedi trafod y materion ymhellach mewn Grwpiau Cynghori’r Gweinidog, cyfarfodydd Clwstwr Cyngor Tref a Chymuned, yn y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol a drefnwyd gan PBC a thrwy weithgareddau ymgynghori a drefnwyd gan y Cyngor Iechyd Cymunedol. Diwygiwyd yr ymateb drafft i’r ymgynghoriad, drwy gyfarfod pellach o Weithgor y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, i ystyried y trafodaethau hyn.

4.5 Mae’r gwelliannau allweddol a wnaethpwyd yn cynnwys

- bod angen cael Grŵp Strategol yn ei le i Sir Ddinbych er mwyn cael trafodaeth barhaus am weithredu manwl y cynigion (para 1.4)
- geirio cryfach am yr angen i gael gwasanaethau amgen yn eu lle cyn bod gwasanaethau presennol yn cael eu cau (paragraffau 1.5, 1.6.4, 1.8.2, 2.3) ac i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr (1.9.2).
- cynnig bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried datblygu Ysbyty Dinbych ac Ysbyty Rhuthun yn “ganolfan ysbyty ar y cyd” gyda swyddogaethau cyflenwol (para 1.7)
- cymorth penodol i ddarparu Gwasanaeth Mân Anafiadau yn Llangollen (para 1.8.3)

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gwaith agos ac integredig gyda gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd, yn rhan allweddol o waith y Cyngor i ymateb i newid demograffig. Mae’r Cynllun MAWR hefyd yn nodi amcanion ar gyfer cydweithio effeithiol i gefnogi teuluoedd.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nodwyd y costau posibl i BIPBC ym mharagraff 4.7 o’r adroddiad i’r Cyngor ar 11 Medi. Mae lleihad mewn buddsoddiad yn yr hen batrwm o wasanaethau, a buddsoddi mewn gwasanaethau newydd yn ogystal â delio â diffygion sylfaenol yn her fawr i’r Bwrdd Iechyd. Yn y broses o newid, yn enwedig wrth i wasanaethau drosglwyddo i gymunedau, mae perygl y bydd costau cynyddol yn trosglwyddo i awdurdodau lleol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol i oedolion, er gallai hefyd fod goblygiadau ar gyfer darparu cludiant.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal ac a oes Sgriniad Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gynnal?**

Mae BIPBC wedi cynnal sgriniad asesiad o effaith ar gydraddoldeb ynghylch ei gynigion a bydd yn gwneud gwaith pellach cyn cyflwyno’r cynigion terfynol i’r Bwrdd. Mae Gweithgor y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a swyddogion, wedi

cyfrannu at yr ymateb drafft. Bu cyfarfodydd Grwpiau Cynghori'r Gweinidog a chlystyrau Cyngor Tref a Chymuned hefyd yn ystyried y cynigion yn ystod mis Medi a byddant yn parhau i wneud hynny drwy ddechrau mis Hydref.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw'r newidiadau a gynigir wedi'u costio'n llawn ar hyn o bryd felly nid yw'r goblygiad ar wasanaethau'r cyngor yn glir. Mae angen ystyried pethau fel cludiant ac, am fod gwasanaethau'n cael eu darparu mwy yn y gymuned, mae perygl y bydd y costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo'n anochel gan dimau gofal cymdeithasol y Cyngor.
Dechreuodd PBC y flwyddyn ariannol gyda diffyg o £82m wedi'i ragweld ar ei gyllideb. Er gwaethaf cyfraniad unigol o £17m gan Lywodraeth Cymru a defnyddio cronfeydd wrth gefn, ni fu eto'n gallu cyrraedd ei dargedau arbedion. Bydd y cynigion hyn yn golygu bod costau tymor byr yn codi £15m gan dybio y bydd arbedion yn cael eu gwneud wrth symud ymlaen. Hyd yn oed yn yr achos gorau posibl sydd yn yr ymgynghoriad, bydd gan y sefydliad ddiffyg sylweddol o hyd.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Cyfeirir at y risgiau allweddol ym mharagraff 8 uchod a thrwy'r ymateb drafft cyfan yn Atodiad I. Y camau allweddol i liniaru'r risgiau a nodwyd yw cynhyrchu cynlluniau gweithredu wedi'u costio'n fanwl ar gyfer y newidiadau a gynigiwyd a'u trafod drwy Grŵp Strategol arfaethedig. Byddai hyn yn golygu bod yr effaith yn dryloyw a byddai'n golygu bod modd trafod a chyd-drafod yn llawn gyda'r awdurdod lleol sut gellir trefnu ac ariannu'r patrwm newydd o wasanaethau, lle mae'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Cyngor.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
A111 Deddf Llywodraeth Leol 1972